# Y Cynllun Bond

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda YMCA Cymru, gall Cynllun Bond Sir y Fflint helpu pobl na allant fforddio blaendal wrth geisio rhentu eiddo drwy landlordiaid preifat.  Gallwn eich helpu gyda blaendal nad yw'n arian parod, eich helpu i lenwi ffurflen budd-dal tai a sicrhau eich bod yn gwybod faint o rent sy'n rhaid i chi dalu'ch landlord.  Gallwn eich cynghori ar faterion yn ymwneud â thenantiaeth tra'ch bod yn dal yn eich eiddo megis anawsterau wrth dalu'r rhent neu faterion atgyweirio a gallwn siarad yn uniongyrchol â'r landlord ar eich rhan.

Ffoniwch ni i drafod y cynllun ymhellach.

## Pwy sy'n gymwys?

- Rhai dros 16 mlwydd oed gyda chysylltiadau teuluol yn ardal Sir y Fflint
- Pobl sengl neu gyplau heb blant
- Pobl y dywed y Tîm Opsiynau Tai bod angen rhoi “blaenoriaeth i'w anghenion”
- Pobl sy’n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o fod yn ddigartref
- Pobl sy’n derbyn budd-daliadau neu ar incwm isel
- Pobl sy’n edrych am lety preifat ar rent ond na allant fforddio blaendal
- Os oes gennych lai na £250 o gynilion

## Sut ydw i'n ymgeisio?

Bydd yn rhaid i chi gysylltu â Tîm Cymorth y Sector Preifat Sir y Fflint i gofrestru eich manylion.  Ar ôl i chi ddod o hyd i eiddo preifat ar rent, bydd yn rhaid i chi lanw ffurflen gais Bondiau a/neu ffurflen budd-daliadau tai gyda ni.  Bydd gofyn i chi roi prawf hunaniaeth (trwydded yrru, tystysgrif geni neu basbort) a phrawf o unrhyw fudd-daliadau neu incwm yr ydych chi’n eu derbyn.

Mae’n bosibl y bydd y landlord yr eiddo’n gofyn am wiriadau credyd ac yn gofyn am eirda. Dylech fod yn barod gydag o leiaf DAU eirda, ac mewn rhai achosion, gwarantwr gwaith.

Ar ôl i landlord yr eiddo eich derbyn, ond cyn symud i mewn, byddwn yn ymweld â'r eiddo i archwilio ei gyflwr ac i gynnal arolwg.  Os byddwn yn fodlon â chyflwr yr eiddo bydd Bond Blaendal yn cael ei roi i'r landlord ar y diwrnod y byddwch yn symud i mewn.

## Manylion cyswllt

Tîm Cymorth y Sector Preifat
Swyddfeydd y Sir